

# ‘Cysylltu Conwy’

# Adroddiad Cryno o’r Gweithdy Rhagarweiniol

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 2

**Cyd Weledigaeth** 3

**Y Cyd-destun Ehangach** 3

**Ffocws Presennol** 4

**Meysydd ffocws a awgrymwyd** 5

**Gweithio gyda'n gilydd ar draws morweddau** 7

**Y Camau Nesaf Posib** 7

**I Grynhoi** 8

**Atodiad 1.** 10

**Atodiad 2** 13

# Cyflwyniad

Mae Prosiect 'Cysylltu Conwy' yn brosiect cydweithredol, sy'n cael ei arwain gan Gymdeithas Sŵolegol Llundain a Phrifysgol Bangor, gyda chyllid gan y Rhaglen Rhwydweithiau Natur (Cylch 3), sy'n cael ei rhedeg gan y Gronfa Dreftadaeth mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth y Gweithdy Rhagarweiniol ddwyn ynghyd weithredwyr lleol sydd â diddordeb mewn adfer a gwella'r cynefinoedd morol sy'n bodoli'n awr ac i'r dyfodol yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) y Fenai a Bae Conwy yng Ngogledd Cymru. Ei nod oedd gwella'r ddealltwriaeth bresennol, atgyfnerthu'r wybodaeth, a'i gwneud yn haws i weithredwyr gydweithredu â'i gilydd.

O'r rhai a gafodd wahoddiad i gymryd rhan yn y gweithdy, roedd 22 o bobl yn bresennol. Roedd diddordebau a safbwyntiau'r cyfranogwyr yn cynnwys ymarferwyr adfer a gwella'r môr, cyrff rheoleiddio, cyrff anllywodraethol, awdurdodau lleol, grŵp rheoli pysgodfeydd cregyn gleision lleol, ac ymchwilwyr. Cafodd y gweithdy ei gynllunio a'i hwyluso gan yr ymgynghorwyr annibynnol, Dialogue Matters, gyda mewnbwn a chymorth gan Gymdeithas Sŵolegol Llundain a Phrifysgol Bangor.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ac yn adlewyrchu allbynnau'r gweithdy mewn naratif, a chafodd ei ddrafftio o gofnodion manwl y gweithdy a gafodd eu recordio. Os hoffai'r cyfranogwyr dreiddio'n ddyfnach i unrhyw rai o'r trafodaethau, byddai tîm y prosiect yn hapus i drefnu cyfarfod dilynol i drafod y cofnodion manwl a'r pwyntiau allweddol.

# Cyd Weledigaeth

Wrth i'r cyfranogwyr gyrraedd y gweithdy, gofynnwyd iddynt ddychmygu dyfodol lle mae adfer a gwella natur wedi gwneud gwahaniaeth o amgylch arfordir Gogledd Cymru. Dangoswyd yr ymatebion a gasglwyd ganddynt yn ystod y gweithdy ac fe'u crynhowyd mewn naratif fel gweledigaeth ddrafft isod.

**Yn 2040, byddwn yn dathlu'r amgylchedd ffyniannus a'r ymdrechion cydweithredol, cymunedol y tu ôl iddo.**

**Mae'r arfordir yn ffynnu ac yn ddeinamig, gyda chynefinoedd amrywiol, digonedd o fywyd gwyllt, ac amrywiaeth o rywogaethau ac ecosystemau i'w harchwilio. Mae digonedd o forwellt hunangynhaliol, morfeydd heli a riffiau wystrys byw i'w cael, ac ni fu ansawdd y dŵr erioed cystal, gyda rhywogaethau'n dychwelyd o'r herwydd. Mae'r ecosystem ehangach yn dangos yn glir fanteision adfer rhywogaethau a gwarchod cynefinoedd.**

**Ceir ymdeimlad cryf o gyflawni a pherthynas iach, hunangynhaliol rhwng pobl a natur. Mae dynoliaeth yn cydnabod pwysigrwydd ecosystemau naturiol ac osgoi effeithiau niweidiol.**

**Mae prosiectau'n gweithio gyda'i gilydd, yn rhannu gwersi ac yn gweithredu fel ymdrech gadwraeth fwy a mwy pwerus sy'n cael ei chynnal gan amddiffyniadau priodol. Mae cymunedau'n ymwybodol, yn ymddiddori ac yn falch - gan gyfranogi yn y gwaith o wella'r arfordir, cefnogi economi forol a diwydiant bwyd môr lleol ffyniannus, gan ddathlu natur gydag amrywiaeth gynyddol o bobl.**

# Y Cyd-destun Ehangach

Yn ystod sesiwn agoriadol y gweithdy, aeth y cyfranogwyr o amgylch yr ystafell gan ymateb i nifer o gwestiynau a oedd â'r nod o helpu i feithrin dealltwriaeth o'r cyd-destun ehangach ac o gefndir y gwaith adfer a gwella yng Ngogledd Cymru a thu hwnt. Gallai pobl hefyd rannu gwybodaeth am y mentrau a'r lleoliadau presennol ynghyd â mentrau a lleoliadau posibl i'r dyfodol, a sut mae'n berthnasol iddyn nhw ac i natur. Mae'r isod yn crynhoi'r mathau o wybodaeth a rannwyd.

### Beth mae 'Morwedd' yn ei olygu?

Wrth ddisgrifio morwedd, roedd pobl, yn eu ffordd eu hunain, yn meddwl amdano fel yr hyn sy'n cyfateb i dirwedd ond ar y môr: darlun mawr, y môr a'r arfordir wedi'u cysylltu'n un, sydd, yn ymarferol, yn aml â'i wreiddiau ar yr arfordir oherwydd dyna lle mae profiad mwyaf uniongyrchol pobl o'r môr. Mae'r themâu a grybwyllir yn cynnwys cysylltedd - y cynefinoedd, y rhywogaethau a'r prosesau yn rhyngweithio fel rhwydwaith, nid dim ond fel lleoliadau unigol; a'r systemau dynol -

y cymunedau, y bywoliaethau a'r diwydiannau yn rhan o'r morwedd, nid yn elfennau ar wahân. Roedd rhai ymatebion yn adlewyrchu'r safbwyntiau a'r gwerthoedd lleol, gan gynnwys cyfeiriadau at harddwch a chysylltedd yn Gymraeg, yn ogystal ag yn rhoi pwyslais ar gyfathrebu mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i bobl nad ydynt yn arbenigwyr.

### Prosiectau, dulliau o reoli neu o weithredu ar draws ecosystemau sydd eisoes yn hysbys

Cafwyd amrywiaeth eang o enghreifftiau a oedd yn ymwneud ag ymchwilio, cynllunio a chyflawni, gyda nifer ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i Gymru a Gogledd Cymru. Tynnai'r ymatebion sylw at waith tystiolaeth a mapio, gan gynnwys mapio cyfleoedd i wella ac ymchwilio i gysylltedd morweddau, yn ogystal â rhaglenni dalgylch ac "o'r tarddiad i'r môr" yng Nghymru sy'n cysylltu tir ac afonydd â chanlyniadau morol. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys prosiectau morwedd graddfa fawr a rhaglenni cynefinoedd rhanbarthol fel prosiect Solent Seascape a Transforming the Thames yn Lloegr, ochr yn ochr â mentrau yng Nghymru gan gynnwys Natur am Byth!, a chynlluniau morwellt ac wystrys (gan gynnwys y Prosiect Morwellt, y Prosiect Wystrys Gwyllt: Bae Conwy a gwaith yn gysylltiedig â deorfeydd). Fe wnaeth y Prosiect Morwellt hefyd fynd i bartneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac ACA Pen Llŷn a'r Sarnau o dan brosiect Achub y Cefnfor Morwellt. Ceir enghreifftiau o'r gwaith adfer mewn lleoedd penodol yng Nghaergybi, Tremadog a Phorthdinllaen. Un rhesymeg a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd cysylltedd - "mae pob afon yn arwain at y môr" - gyda'r camau gweithredu'n aml yn cael eu fframio fel cysylltu cynefinoedd, prosiectau a phartneriaid ar draws yr arfordir a'r dalgylchoedd.

### Sganio'r ysgogwyr - tueddiadau a newidiadau ehangach

Wrth ystyried yr ysgogwyr o safbwynt adfer a gwella, dywedodd llawer o'r cyfranogwyr ei fod yn fater o frys gwleidyddol ac amgylcheddol, ond yn sefydliadol gymhleth. Fe wnaethant dynnu sylw at gefnogaeth fylchog ac anghyson ar draws cylchoedd polisi, ynghyd ag ysgogiadau a chyfyngiadau sy'n benodol i Gymru fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a deddfwriaeth arall gan Lywodraeth Cymru. Fe wnaethant hefyd gyfeirio at ystyriaethau ymarferol yng Nghymru, gan gynnwys disgwyliadau awdurdodau lleol a'r angen am gyfathrebu'n ddwyieithog - gyda'r Gymraeg yn cael blaenoriaeth mewn rhai cyd-destunau. Yn economaidd, pwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen i gydbwyso adferiad natur â bywoliaethau (pysgota, dyframaethu, twristiaeth), a'r angen am fodelau cyllido, monitro a chyllid tymor hir y tu hwnt i'r grantiau presennol. Roedd themâu cymdeithasol yn cynnwys eco-bryder, blinder rhanddeiliaid, a'r angen i ailfeithrin cysylltiad a gobaith drwy gyfrwng straeon credadwy a chyfleoedd i gymryd rhan yn lleol.

### Perthynas â natur

Pan ofynnwyd iddynt roi eu hunain yn safle'r arfordir a'r môr o amgylch Gogledd Cymru, a meddwl am yr hyn y byddai'n ei ddweud wrthym o bosibl, fe wnaeth y cyfranogwyr helpu i roi llais i fyd natur - rhai mewn geiriau plaen ac eraill yn fwy barddonol. Fe wnaethant fynegi syniadau am ei hirhoedledd, ei fod yn bodoli ymhell cyn pobl ac y bydd yn para'n hirach na nhw, ond nad yw'n ddiderfyn ac na all ddal i ddioddef cael ei lygru a'i ysbeilio heb ganlyniad. Roedd llawer o negeseuon yn herio agweddau "allan o'r golwg, allan o'r meddwl" - gan annog pobl i *weld y môr*, ei barchu, a pheidio â'i drin fel rhywbeth na all dim wneud niwed iddo. Roedd cysylltedd yn ganolog - mae sut mae'r môr yn cael ei ddefnyddio yn effeithio ar bawb, ac er mwyn byw'n dda ar y tir mae angen dysgu oddi wrth y môr. Roedd naws leol benodol i nifer o'r ymatebion - y dylai gwaith adfer ac amddiffyn fod yn benodol i anghenion lleol, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o sut mae lleoedd nawr a sut yr arferent fod. Roedd rhai agweddau'n mynnu bod angen symud oddi wrth siarad at weithredu neu roi cefnogaeth i'w brosesau naturiol ei hun - *Rhowch ddŵr glân o'r pwll llonydd a mi wna i edrych ar ôl y gweddill.*

## Ffocws Presennol

Canolbwyntiai'r sesiwn gweithdy nesaf ar y cynlluniau adfer a gwella presennol. Y tro hwn, bu'r cyfranogwyr yn gweithio mewn grwpiau bach a gâi eu hwyluso.

### Ymdrechion adfer a gwella hyd yma

Gan rannu'r ymdrechion hyd yma, cyfeiriodd y cyfranogwyr at brosiectau sy'n cael eu harwain gan gynefinoedd neu rywogaethau, yn enwedig morwellt, morfeydd heli ac wystrys brodorol, yn aml fel prosiectau un cynefin sy'n cael eu siapio gan anghenion cyllido a chyfathrebu. Mae cynlluniau eraill wedi canolbwyntio ar ansawdd dŵr a gwaith yn y dalgylch, gan gynnwys camau

i leihau effeithiau llygredd, a'r perygl o lifogydd neu reoli'r arfordir. Mae gwelliannau arfordirol wedi bod yn defnyddio eco-beirianneg i 'lasu'r llwyd', neu leihau effeithiau seilwaith angori neu gychod mewn llefydd fel Pwllheli a Rhoscolyn.

Disgrifiwyd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau fel rhai lleol, bychan a gâi eu treialu, gyda rhai'n dechrau cyplysu â'i gilydd drwy rwydweithiau a chynlluniau ehangach - gydag allgymorth ac addysg yn rhan annatod o lawer o brosiectau. Gwelir yr awydd i dyfu, fodd bynnag, mae'r gallu i sicrhau cyllid tymor hwy, profi cysyniadau a bod yn wrthrychol ynghylch y canlyniadau yn cael eu hystyried yn ffactorau sy'n cyfyngu ar y gweithgareddau hyn.

Tynnodd rhai cyfranogwyr sylw at y ffaith bod "adferiad" nid yn unig yn golygu gwaith adfer gweithredol ond hefyd yn golygu cael gwared ar y pwysau. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli gweithgareddau niweidiol a rhoi sylw i rywogaethau goresgynnol ac anfrodorol, gyda'r gwaith yng Nghaergybi yn un enghraifft. Mae Atodiad 1 yn cynnwys manylion rhagor o gynlluniau y cyfeiriodd y cyfranogwyr atynt ac a drafodwyd.

### Llwyddiant ar hyn o bryd

Tynnodd y cyfranogwyr sylw at gynnydd amlwg gyda morwellt ac wystrys, gan ddweud ei bod yn dal yn anodd barnu llwyddiant ar unwaith a bod cynlluniau gweithredu'n dal i allu teimlo'n dameidiog. Dywedodd nifer o bobl fod yr allgymorth a'r addysg yn gadarn ac yn dod yn fwyfwy effeithiol, gan helpu i roi gobaith i bobl, a meithrin llythrennedd yn y cefnforoedd. Buont yn trafod llwyddiant cymharol y ffocws presennol - plant ifanc iawn o'u cymharu â myfyrwyr hŷn - ac yn siarad am ennyn diddordeb ar draws oedrannau a theuluoedd, gan gynnwys drwy lwybrau fel "Hyrwyddwyr Achub y Cefnforoedd".

Yn adeiladu ar y thema honno yr oedd cysylltu â'r gymuned ac ymgysylltu'n gynnar. Disgrifiwyd 'Llawlyfr Conwy' - a oedd yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a gweithredwyr lleol fel ffermwyr a busnesau - fel model ar gyfer cynnwys cymunedau o'r cychwyn cyntaf. Soniwyd, dro ar ôl tro, fod y diwylliant o gydweithio yn agored, a bod y lefelau "porthgadw" yn isel. Nodwyd hefyd gyfraniad prifysgolion a sefydliadau eraill drwy gyfrwng lleoliadau gwaith ac interniaethau. Ystyrir bod gwyddoniaeth dinasyddion a gwirfoddolwyr yn rhoi cefnogaeth a chapasiti ymarferol ar gyfer gwaith adfer ymarferol.

Soniodd nifer o bobl am y cyd-destunau deddfwriaethol a pholisi ffafriol yng Nghymru, sy'n arwydd o ymrwymiad ac yn helpu i ddarparu adnoddau. Yn ei dro, gall ymrwymiad ac arian gan y llywodraeth ac awdurdodau lleol ryddhau cyllid arloesol a chyllid o'r sector preifat. Cyfeiriwyd at Aviva, Orsted, a datblygwyr (drwy Gronfa Forol Cymru) fel cyrff sy'n gefnogol i waith adfer a lliniaru llifogydd.

Cyfeiriwyd hefyd at y cysylltiadau a'r cyd-fanteision posibl rhwng deorfeydd, cadwyni cyflenwi dyframaeth, a diwydiant.

### Heriau a chyfleoedd i roi sylw iddynt

Roedd cyllid yn her barhaus y cyfeiriodd y cyfranogwyr ati. Galwodd llawer am gymorth hirdymor, gan ddisgrifiodd system lle nad cheir ddim ond galwadau byr, cronfeydd bach, a chanlyniadau cyflym. Mae'r rhain yn creu rhwystrau ymarferol gyda staffio, cyfalaf a sicrhau adeiladau neu brydlesi.

Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at fwlch rhwng y bwriad a'r cyflawni. Mae'n bosibl na fydd y seilwaith na'r capasiti ar gael - yn enwedig ar gyfer cadwyni cyflenwi'r gwaith adfer - ac fe all fod yn anodd i sefydliadau gymryd risg heb "le i fethu a dysgu". Treialon yn unig ydy llawer o'r gwaith o hyd a chyfeiriodd y cyfranogwyr at ddiffyg hyder i dyfu heb fonitro cyson, metrigau y cytunwyd arnynt a thystiolaeth. Mae daearyddiaeth, yn enwedig wrth weithio ar raddfa fawr, a mynediad hefyd, yn cyfyngu ar brosesau cydlynu a monitro.

Mae ymddiriedaeth ac ennyn perchnogaeth leol dros brosiectau - yn enwedig rhai sy'n ymwneud â physgotwyr, tirfeddianwyr a phobl sy'n defnyddio'r arfordir a'r môr - yn ffactorau hollbwysig. Cyfeiriodd rhai at enghreifftiau o ofn yn sgil profiadau cynharach a'r perygl i ymdrechion cynharach fod yn niweidiol i waith i'r dyfodol ond cydnabuasent y ceir cyfleoedd i gael gwell deialog dwyffordd neu aml-barti wrth wireddu cyd-fanteision gwaith adfer neu wella.

# Meysydd ffocws a awgrymwyd

Fe wnaeth y cwestiynau a ofynnwyd, ar ôl rhannu ac archwilio'r cynlluniau, ysgogi'r cyfranogwyr i feddwl sut y gellid adeiladu ar y gwaith da presennol a rhoi sylw i'r heriau. Aethant ymlaen i ddatgelu mwy am ba fathau o gynefinoedd neu waith adfer rhywogaethau yr hoffai pobl eu gweld fwyaf, ac ar ba raddfa.

### Adeiladu ar y gwaith da sy'n bodoli eisoes a rhoi sylw i'r heriau

Esboniwyd yr angen am gyllid diogel, hirdymor a dilyniannu cliriach er mwyn cynnal y momentwm cynnar a galluogi sefydliadau i gynllunio y tu hwnt i'r cylchoedd grant presennol - mae'n bwysig cefnogi amserlenni adfer a gwaith ar raddfa fwy. Cynigiodd rhai o'r cyfranogwyr y dylid rhoi blaenoriaeth i'r "cynefin iawn yn y lle iawn", gan ddefnyddio'r gwaith mapio sy'n datblygu, a llunio cynlluniau fesul cam er mwyn i dimau cyflawni allu symud yn gyflym pan fydd cyllid ar gael. Canolbwyntiai lawer o'r cyfraniadau ar gynllunio a llywodraethu cydgysylltiedig. Mae'r awgrymiadau'n cynnwys partneriaeth neu sefydliad cynnal i gydlynu'r gwaith, cyplysu cynlluniau gweithredu, a rhoi sylw i unrhyw broblemau cyffredin gyda'r seilwaith.

Cyfeiriwyd at gyfranogiad a pherchnogaeth y gymuned dro ar ôl tro. Pwysleisiodd y cyfranogwyr fod angen osgoi "cadwraeth barasiwt", gan ganiatáu amser a chyllideb i ymgysylltu'n ystyrlon, a bod yn dryloyw ynghylch ansicrwydd, gan gynnwys y posibilrwydd na fydd pob dull yn llwyddiannus. Nodwyd Caergybi fel enghraifft lle'r oedd yr ymgysylltu wedi'i deilwra'n unol â'r amgylchiadau lleol, er bod hynny wedi cymryd mwy o amser. Soniwyd am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru, 2015) fel ffactor a sbardun pwysig wrth ystyried cyd-fanteision ac effeithiau prosiectau.

Yn olaf, cafwyd trafodaeth o fewn un grŵp ynghylch a ddylid cyfuno'r ymdrechion a'r cyllid yng Nghymru mewn un prosiect i wneud gwaith adfer ar draws morweddau. Awgrymwyd y gallai canolbwyntio adnoddau ar un safle blaenllaw helpu i roi inni un safle arddangos sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Fodd bynnag, cafodd hyn ei herio o safbwynt tegwch i gymunedau lleol a dosbarthu cyllid yn deg. Fe wnaeth un farn wahanol bwysleisio gwerth cefnogi amryfal safleoedd prosiectau ar draws Cymru, gan alluogi i fwy o ohonom gyfranogi a dysgu, a chreu sylfaen dystiolaeth fwy cynrychioliadol i lywio gwaith adfer i'r dyfodol.

### Gwaith ar gynefinoedd a rhywogaethau i'r dyfodol

Cyfeiriodd nifer o'r cyfranogwyr at ymdrechion sy'n canolbwyntio ar rywogaethau penodol fel wystrys, morwellt, gwlithod môr, a larfâu pysgod. Er na chyfeiriasant yn benodol at y maint, trafodwyd perthynas y rhain ag iechyd cyffredinol eu hecosystemau, ac yn achos larfâu pysgod, eu perthynas â rhywogaethau eraill ac â'r diwydiant pysgota. Mae wystrys yn cael eu gwerthfawrogi o safbwynt nifer o wasanaethau ecosystemau ac yn cael eu hystyried yn berthnasol ar draws morweddau os oes modd adfer y gwelyau gweithredol.

O safbwynt cynefinoedd, cafodd morfeydd heli, twyni tywod a gwaith adfer afonydd eu trafod a'u cysylltu â swyddogaeth ecosystemau ehangach. Roedd gwaith adfer morfeydd heli yn cael ei gysylltu â chynlluniau ailosod arfordirol, ond dywedodd y cyfranogwyr ei bod yn gallu bod yn anodd yng Nghymru oherwydd prinder lle. Ystyrir bod gwaith adfer afonydd ar draws y dalgylch neu 'o'r tarddiad i'r môr' yn ddymunol; ond cydnabyddir ar yr un pryd yr angen am well gwaith modelu, data a dealltwriaeth ar draws arbenigeddau dŵr croyw a morol.

Roedd nifer o'r sylwadau wedi'u seilio ar lefydd penodol, gan gynnwys diddordeb mewn dangosyddion sy'n gysylltiedig ag ansawdd dŵr yn Afon Menai. Roedd eraill yn ystyried y llinellau sylfaen hanesyddol, er enghraifft, yr hyn a oedd yn bresennol 100 mlynedd yn ôl, ac a yw'r dynodiadau presennol yn methu rhywbeth.

Mewn trafodaeth bellach buont yn ystyried sut all cyplysu cynefinoedd ar draws y dirwedd esgor ar ganlyniadau gwell. Awgrymodd eraill y dylid canolbwyntio ar rywogaethau ar y cyd â chynefinoedd - er enghraifft morfeydd heli a morwellt - er mwyn esgor ar effeithiau cadarnhaol ar gyfer stociau pysgod.

Ar draws yr ymatebion, dychwelai rhai cyfranogwyr at y syniad "y peth iawn, yn y lle iawn." Dewis y raddfa a'r dilyniant priodol ar gyfer adfer a gwella, gan ystyried ar yr un pryd ddimensiynau dynol, pwysau ac amgyffredion wrth wneud penderfyniadau. Cyfeiriwch at Atodiad 2 i weld y manylion a luniodd y cyfranogwyr am y lleoedd a'r mathau o waith adfer y maent yn gobeithio eu gweld i'r dyfodol.

# Gweithio gyda'n gilydd ar draws morweddau

Cyfeiriodd y cyfranogwyr at gydweithio fel un trywydd at effeithlonrwydd, at ddysgu ar y cyd (gan gynnwys oddi wrth fethiannau), gwell dilyniannu, a gweithredu ar draws morweddau. Roeddent hefyd yn cysylltu cydweithio â hygrededd - creu llais unedig cryfach i gymunedau a chyllidwyr - llai o ddyblygu, a llai o gystadleuaeth am gyllid tymor byr o bosibl.

Amser a chymhlethdod sydd wrth wraidd yr heriau: mwy o gyfarfodydd, proses gymeradwyo arafach, data neu waith gweinyddu trymach, a risgiau o safbwynt llywodraethu, parhad a gwyro oddi wrth yr amcanion. Mae deinameg pŵer a chynrychiolaeth ymysg y prif bryderon, felly hefyd y trafferthion wrth geisio cytuno ar derminoleg, brandio a negeseuon cyffredin.

Ymysg yr atebion a gynigiwyd yr oedd gosod nodau a rolau clir, a deall y manteision a'r gwerthoedd cyffredin; llywodraethu drwy iaith glir ar ffurf Cylch Gorchwyl neu gytundebau; cynlluniau cyfathrebu, cadeirydd annibynnol i gael tegwch, a darparu adnoddau ar gyfer y costau cyfranogi.

Nid oedd pawb a wahoddwyd i'r gweithdy hwn wedi gallu dod, ac roedd hynny'n golygu bod lleisiau o fusnesau lleol, pysgodfeydd, cymunedau a Llywodraeth Cymru yn absennol - roedd y trefnwyr a'r cyfranogwyr wedi nodi hyn. Ers hynny, mae'r trefnwyr wedi cysylltu yn unigol â nifer o'r gweithredwyr a gafodd wahoddiad i'r gweithdy rhagarweiniol ond a fethodd â dod. Er mwyn parhau â'r trafodaethau hyn gyda sylfaen wybodaeth ehangach, byddai creu map o'r gweithredwyr lleol yn helpu i adnabod pobl a dilyniannu'r cyfranogiad a'r cyfathrebu - mae hyn yn bwysig wrth gynllunio'r broses ymgysylltu i'r dyfodol ac i sicrhau bod cyfraniadau pobl yn werth chweil.

Awgrymodd y rhai a oedd yn bresennol yn y gweithdy amrywiol weithredwyr i'w cynnwys yng nghamau'r prosiect i'r dyfodol. Bydd yr awgrymiadau hyn yn helpu i lywio ymarfer i greu map o weithredwyr y prosiect a gweithgareddau ymgysylltu i'r dyfodol. Mae llawer o'r grwpiau a enwyd eisoes wedi'u cynnwys yn y map gweithredwyr presennol a byddant yn cael eu cynnwys yn y prif weithdy. Mae enghreifftiau'n cynnwys Llywodraeth Cymru, cynghorau lleol neu gynghorau cymuned, pysgotwyr, grwpiau hamdden, awdurdodau harbwr a mordwyo, Stena Line (Caergybi), Ystâd y Goron, Dŵr Cymru, partneriaid Afon Dyfrdwy, cyrff anllywodraethol eraill, busnesau a thwristiaeth, addysg/pobl ifanc, y bobl greadigol a'r cyllidwyr. Wrth i weithdai'r dyfodol gael eu trefnu, bydd y map o'r gweithredwyr yn cael ei greu'n naturiol wrth gymharu'r cyfranogiad gyda'r cyfranogwyr.

# Y Camau Nesaf Posib

Yn ystod sesiwn olaf y gweithdy cafodd y cyfranogwyr gyfle i fyfyrio ar eu trafodaethau, yna ystyried beth arall yr hoffent ei weld yn digwydd, a pha fathau o adnoddau neu sgiliau y gallent eu cynnig o bosibl i gefnogi parhad yr ymdrechion ar draws Morweddau.

### Cynnal momentwm

Yn gyffredinol, mae'r cyfranogwyr eisiau cynnal momentwm y dulliau cydgysylltiedig a chydweithredol o adfer a gwella ar raddfa fawr. Ceid galwad gyson i symud oddi wrth drafod a thuag at weithredu: gan adeiladu a rhannu'r sylfeini tystiolaeth ar gyfer adfer cynefinoedd a rhywogaethau, creu theori'r newid ar y cyd, blaenoriaethu'n realistig ac yn glir, a gweithredu ar yr hyn sydd eisoes yn hysbys o'r ymchwil a'r dystiolaeth.

Mae llawer yn credu bod mwy o gydgysylltu'n bwysig, gan gynnwys cysylltu cynlluniau gweithredu cynefinoedd â'i gilydd, gwella'r gwaith o fonitro cysylltedd rhwng prosiectau, a defnyddio'r "morwedd" fel fframwaith cydlynol gyda chyllidwyr. Cyfeiriwyd at yr angen am fonitro hirdymor, a hefyd at yr ansicrwydd ynghylch pa ddata sydd eisoes yn bodoli.

Mae cyllid yn dal i fod yn ganolog - gyda galwadau am gymorth mwy hyblyg a digonol dros gyfnod hwy. Mae'r capasiti a'r gallu sydd eu hangen i gyflawni prosiectau hefyd yn hanfodol. Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at bwysigrwydd ewyllys wleidyddol sy'n rhoi blaenoriaeth i foroedd iach.

### Cynnig adnoddau a chymorth

Er mwyn helpu i gynnal momentwm, cynigiodd y cyfranogwyr gymysgedd ymarferol o gymorth a allai fod ar gael i helpu i symud gwaith ar draws morweddau o'r cam trafod i'r cam cyflawni. Roedd y rhain yn cynnwys capasiti ychwanegol ar gyfer monitro a staffio, mynediad i leoliadau a, lle bo hynny'n ymarferol, tir i helpu â'r gweithgareddau ar y safle. Cyfeiriodd nifer o'r cyfranogwyr at gyfleoedd i rannu data a monitro, gan gynnwys gwirfoddolwyr i wneud profion ansawdd dŵr, rhwydweithiau gwyddoniaeth dinasyddion, a chynlluniau sy'n datblygu ar gyfer monitro morwellt a morfeydd heli, a cheir parodrwydd i helpu i ddatblygu metrigau monitro.

Cynigiodd eraill arbenigedd technegol i fodelu addasrwydd cynefinoedd, a'r dulliau (yn enwedig ar gyfer morwellt, morfeydd heli ac wystrys), gan gynnwys gwersi oddi wrth raglenni sydd eisoes yn mynd rhagddynt a safleoedd adfer lleol ar Ynys Môn, a datblygu deorfeydd.

Cynigiodd eraill wneud y cynllunio a'r cydlynu, gan gynnwys defnyddio adnoddau strategol fel y Trywydd Cyflawni Morol, cymorth drwy rolau cydlynwyr arfordirol, a thrywyddau at bwyllgorau a rhwydweithiau rhanddeiliaid ehangach. Roedd nifer o'r cynigion yn ymwneud â chyllido a llywio drwy bolisïau, fel cymorth i ddatblygu cynigion (gan gynnwys drwy LNRS), cymorth gyda cheisiadau am gyllid gan Lywodraeth Cymru, a chyngor cyfreithiol neu statudol cynnar i leihau risgiau cydsynio yn ddiweddarach. Gellid hefyd darparu cymorth cyfathrebu i deilwra'r dulliau ymgysylltu a chynnwys cymunedau ar adegau priodol.

Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn gweld gwerth yn y syniad o wneud gwaith ar draws morweddau yng Ngogledd Cymru, a hoffent weld y sgyrsiau cydweithredol yn parhau.

# I Grynhoi

Roedd y gweithdy cychwynnol 'Cysylltu Conwy' wedi helpu i fraenaru'r tir ar gyfer gwaith adfer a gwella ar draws morweddau yng Ngogledd Cymru i'r dyfodol. Cynhwysai'r trafodaethau gyfuniad o syniadau ymarferol a syniadau creadigol, gan ddangos y cryfderau presennol a chydnabod, ar yr un pryd, y ceir meysydd i'w gwella.


Disgrifiodd y cyfranogwyr adfer ar draws morweddau fel gweithio mewn system gysylltiedig - cynefinoedd, rhywogaethau a gweithgarwch dynol - rhywbeth sydd i'w weld amlycaf ar hyd yr arfordir lle mae cymunedau'n byw, a lle mae pobl yn dibynnu ar y môr am eu bywoliaeth. Roeddent yn cydnabod y sylfeini sydd eisoes i'w cael yng Ngogledd Cymru, pethau fel allgymorth a llythrennedd cefnforol, egni gwirfoddolwyr, ac awydd i gydweithio. At hynny, mae ymdrechion adfer sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ac yn y gorffennol ar draws morwellt, wystrys a morfeydd heli yn dechrau esgor ar ganlyniadau monitro cynnar a chaiff y canlyniadau eu rhannu, ochr yn ochr â gwersi gwerthfawr a ddysgwyd oddi wrth y treialon a'r cynlluniau peilot cychwynnol. Mae'r sylfaen dystiolaeth gynyddol hon yn helpu i lywio a mireinio'r gwaith i'r dyfodol.

Mae cyd-destun sy'n seiliedig ar le yn bwysig. Un thema gyffredin ymysg y cyfranogwyr oedd yr angen i gynnwys amrywiaeth eang y safbwyntiau a'r buddiannau sy'n elwa o'r ymdrechion adfer neu wella ar raddfa fawr neu y mae'r ymdrechion hyn yn effeithio arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys cymunedau lleol, awdurdodau lleol, cyfleustodau, tirfeddianwyr a rheolwyr tir, cyrff anllywodraethol eraill, ac adrannau Llywodraeth Cymru. Ar yr un pryd, tynnodd y cyfranogwyr sylw at y realiti sy'n benodol i Gymru ac sy'n siapio'r hyn a gyflawnir, gan gynnwys y ffrâm polisi Cymreig, y pryder parhaus ynghylch parhad cyllid, cymhlethdod y broses drwyddedu a'r pwysau sy'n effeithio ar ansawdd dŵr.

Drwyddi draw, fe wnaeth y gweithdy rhagarweiniol hwn ganiatáu inni feithrin cyd-ddealltwriaeth, a chynhyrchu data dadlennol a all fod yn sail i sgyrsiau i'r dyfodol. Mae cydweithio ar draws morweddau er mwyn byd natur yng Ngogledd Cymru yn rhywbeth yr hoffai cyfranogwyr ei weld a bod yn rhan ohono.

# Atodiad 1.

Ychwanegwyd nodiadau at y map yn ystod y gweithdy i ateb cwestiwn 2.4. '*Ble mae'r gweithgareddau adfer, rheoli, ymchwilio a/neu fonitro yn digwydd yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd, a phwy sy'n gwneud beth*?'




**Ffigur 1. Allbynnau mapiau digidol o'r lleoliadau a nodwyd ar y map yn ystod y gweithdy o safbwynt cwestiwn 2.4: a) map llawn o Ogledd Cymru a'r rhanbarthau b) Ynys Môn c) Pen Llŷn a Gogledd Bae Ceredigion, d) y Gogarth i Afon Dyfrdwy. Mae'r rhifau yn cyfateb i'r sylwadau a gofnodir yn Nhabl 1.**

**Tabl 1. Sylwadau a roddwyd ochr yn ochr â'r nodiadau ar y map o safbwynt cwestiwn 2.4 yn ystod y gweithdy; maent yn cyfateb i Ffigur 1.**


| Rhif | Lleoliad | Sylw |
|---|---|---|
| 1 | Ar hyd arfordir Gogledd Cymru o afon Dyfrdwy i afon Dyfi | Prosiect Morfeydd Heli Gogledd Cymru sy'n canolbwyntio ar waith ymchwilio, mapio a monitro ar forfeydd heli |
| 2 | Bae Conwy, rafft ymchwil Prifysgol Bangor yn y Fenai | Gwaith i fonitro adferiad wystrys brodorol gan asesu dwysedd wystrys, bathymetreg a chyfansoddiad y gymuned dros amser, gan ymchwilio hefyd i effaith amlygiad ar oroesiad y wystrys a thwf y cregyn. |
| 3 | Morfa heli Cefni, Y Foryd | Prosiect PhD Hybu'r gwaith o Reoli Morfeydd Heli ar gyfer Rhywogaethau Pysgodfeydd, a fu'n samplu bob mis am flwyddyn (Tachwedd 2024 - Hydref 2025) i edrych ar eu pwysigrwydd i bysgod a berdys a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar niferoedd rhywogaethau mewn pysgodfeydd. |
| 4 | Rhoscolyn, Abersoch, Abererch | Gosod Uwch Systemau Angori (AMS) mewn lleoliadau er mwyn gwella iechyd gwely'r môr ac, yn sgil hynny, rywogaethau gwely'r môr fel morwellt ac ati. Hefyd i ddarparu sgiliau (uwchsgilio) i gymunedau, gan ddod â nhw gyda ni, nid eu disodli. Rhoi'r AMS i bysgotwyr lleol. |
| 5 | Ystâd Bodorgan, gyferbyn â chors Cefni | Ymchwilio i'r potensial ar gyfer adfer y *Z. noltii* a samplu ansawdd y dŵr |
| 6 | Traeth Lafan, Traeth Melynog, Malltraeth | Gwaith monitro tymhorol fel rhan o gyngor gwaith achos i Lywodraeth Cymru sy'n agor gwelyau cocos |
| 7 | Y Foryd, Conwy | Monitro morwellt y Foryd (gan gynnwys mapio) a Chonwy (dim mapio) dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr |
| 8 | Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau | Monitro'r ardal rynglanwol: Sabellaria spp., gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod yr ardal rynglanwol, morwellt (Porthdinllaen).<br><br>Monitro'r ardal islanwol: riffiau (Ynysoedd Saint Tudwal, Ynys Enlli), riffiau carbonad, baeau a glannau (cip-samplu), Marchfisglod (*Modiolus modiolus*) |
| 9 | Ardal Cadwraeth Arbennig y Fenai a Bae Conwy | Monitro'r ardal rynglanwol: riffiau (clogfeini, cymunedau sy'n cael eu hysgubo gan y llanw), gwastadeddau llaid a gwastadeddau tywod (Traeth Lafan, Afon Menai)<br><br>Monitro'r ardal islanwol: baeau a glannau, riffiau (Afon Menai, Ynys Seiriol, Moelfre) |
| 10 | Y dorlan fwdlyd (Muddy Hollow), Bae Tremadog | Treialon i fonitro'r boblogaeth llyngyr llosgfynydd a chymunedau mwdlyd |

| Rhif | Lleoliad | Sylw |
|---|---|---|
| 11 | Beddmanarch | Mae'r RSPB, gyda Llywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, yn monitro nythfa o fôr-wenoliaid yn y môr mewndirol. Nythfa gymysg o adar môr, gan gynnwys môr-wenoliaid. |
| 12 | Llyn Padarn, Afon Menai, Afon Conwy | Gwaith monitro ansawdd dŵr Lab Dŵr |
| 13 | Gwynedd | Prosiectau ar gynlluniau ffensio |
| 14 | Ynys Môn | Gwlypdiroedd arnofiol |
| 15 | Llyn Padarn, Llyn y Gadair | Cynllun adfer Prosiect Torgoch |
| 16 | Afon Eden | Misglod perlog yr afon |
| 17 | Dalgylch Afon Clwyd | Rheoli rhywogaethau anfrodorol goresgynnol |
| 18 | Afon Cegin | Caru Afon Cegin |
| 19 | Môr mewndirol/ Culfor Cymyran, Porthdinllaen, Llanbedrog, Afon Wen | Gwaith adfer morwellt gan ddefnyddio hadau o ddolydd eraill (Porthdinllaen), monitro ac ymgysylltu â'r gymuned. |
| 20 | Ynys Enlli, Uwchmynydd, Bwlchtocyn | Cynllun Shorewatch y corff gwarchod morfilod a dolffiniaid (WDC), safleoedd gwyddoniaeth dinasyddion a sefydlwyd i fonitro mamaliaid morol fel rhan o Brosiect Mamaliaid Morol Enlli |
| 21 | Cymru gyfan | Prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion parhaus sy'n cynnal arolygon o ddyfrgwn ac yn monitro ansawdd dŵr yng Ngogledd Cymru gan ddilyn prosiectau Cymru gyfan y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig |
| 22 | Bangor | Monitro lefelau E. coli cregyn gleision yn fisol ar gyfer y Dosbarthiad Hylendid Pysgod Cregyn |


# Atodiad 2

Ychwanegwyd nodiadau at y map yn ystod y gweithdy i ateb cwestiwn 2.5. '*Ble hoffech chi weld gwaith adfer, rheoli, ymchwilio a/neu fonitro yn digwydd i'r dyfodol?*'


a)





b)




c)




d)



**Ffigur 2. Allbynnau digidol o'r lleoliadau a nodwyd ar y map yn ystod y gweithdy o safbwynt cwestiwn 2.5: a) map llawn o Ogledd Cymru a'r rhanbarthau b) Ynys Môn c) Pen Llŷn a Gogledd Bae Ceredigion, d) Bae Conwy. Mae'r rhifau yn cyfateb i'r sylwadau a gofnodir yn Nhabl 2.**

**Tabl 2. Sylwadau a roddwyd ochr yn ochr â'r nodiadau ar y map o safbwynt cwestiwn 2.5 yn ystod y gweithdy; maent yn cyfateb i Ffigur 2.**

| Rhif | Lleoliad | Sylw |
|---|---|---|
| 1 | Abersoch<br>Aber-erch | Ceir llawer o dwristiaid yn ystod yr haf, ac o ganlyniad mae llwythi o bobl i'w cael ar y traethau, yn y dŵr, gan achosi aflonyddwch oherwydd eu presenoldeb a'u gweithgarwch. Gan fod cynifer o bobl yn defnyddio'r rhan hwn o'r arfordir, a chynifer o fusnesau yma'n ffynnu, byddai'n braf gweld mwy o ymdrech i gadw'r hyn sydd yma, ac adfer yr hyn sy'n cael ei golli/sydd wedi'i golli |
| 2 | Afon Menai | Monitro cyflwr cynefinoedd. Ymchwil i reoli rhannau uchaf dalgylch yr afon |
| 3 | Bae Tremadog | Ardal bosibl a allai fod yn dda ar gyfer adfer y 'morwedd'. Cynefin addas ar gyfer wystrys, morwellt. |
| 4 | Afon Menai | Lle mae'r pwysau mwyaf ar gynefinoedd - datblygu, pwysau, twristiaeth, poblogaeth, seilwaith |
| 5 | Cemlyn | Gweld ymdrechion ymchwil a monitro yn cyrraedd y pwyntiau mwyaf gogleddol. Ardaloedd heriol gyda llanw cryf ond cynefinoedd hynod amrywiol |
| 6 | Afon Conwy | Gwella ac ehangu'r morfeydd heli |
| 7 | Môr mewndirol / Culfor Cymyran | Gwaith posibl i adfer/gwella morwellt a morfeydd heli (gan gysylltu â'r RSPB i warchod nythfeydd môr-wenoliaid) |
| 8 | Malltraeth | Safleoedd hanesyddol posibl ar gyfer wystrys brodorol. Ardal i'w hasesu ar gyfer ei hadfer a rheoli nodweddion/monitro'r gwaith adfer a wneir |
| 9 | Bae Caernarfon | Potensial i ddefnyddio cynefinoedd riff biogenig eraill ar gyfer adfer wystrys h.y. *M. modiolus* - tystiolaeth o bresenoldeb wystrys hanesyddol? |
| 10 | Porthdinllaen | Adeiladu ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd ym Mhorthdinllaen ers blynyddoedd er mwyn diogelu'r ddôl forwellt- cysylltu â'r gwaith i reoli'r harbwr a gwneud yn siŵr nad yw'n diraddio |